Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru
Prif negeseuon o'r cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 1 Rhagfyr 2022

Derbyniodd a thrafododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf / adroddiadau canlynol:

1. Cafodd adroddiadau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant canlynol eu cyflwyno i Aelodau BDPGC i'w cymeradwyo'n ffurfiol:

- Adolygiad Ymarfer Plant BDPGC 2021/1 Sir y Fflint
- Adolygiad Ymarfer Plant BDPGC 2020/1 Wrecsam

2. Diweddariad Cynllun Gweithredu Fforwm Ymarfer Aml-asiantaeth

Bydd rhagor o becynnau gwaith yn cael eu datblygu, e.e. canllawiau ymarfer, hyfforddiant a thri set o weithredoedd dysgu yn cael eu cynnal gydag ymarferwyr.

Bydd y newyddion diweddaraf am y cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno ym mhob cyfarfod ardal grŵp cyflawni lleol.

3. Diogelu Plant Cenedlaethol a Thrawsffiniol sy'n gysylltiedig â Llinellau Sirol

Y cynnig yw llunio canllaw ymarfer drwy waith tasg a gorffen ac ymgysylltu gyda budd-ddeiliaid allweddol, ymarferwyr a phobl ifanc. Bydd angen alinio cynrychiolwyr ar gyfer y grŵp tasg a gorffen yma i adrodd yn ôl drwy sianeli priodol.

Cytunodd cynrychiolwyr BDPGC.

4. Safonau Hyfforddi Cenedlaethol

Fframwaith Safonau Hyfforddi Cenedlaethol. Datblygwyd y safonau oherwydd nad oedd safonau aml-asiantaeth, cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant diogelu. Bydd Grŵp Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu Rhanbarthol yn arwain ar hyn.